

---

## **Y Gronfa Radio Cymunedol**

Cyngor i ymgeiswyr am grant

---

**CANLLAW:**

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Hydref 2018

# Gair am y ddogfen hon

---

O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae Ofcom yn gallu rhoi grantiau i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol. Bob blwyddyn, mae'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn neilltuo swm o arian ar gyfer Cronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa"). Mae Ofcom yn dyfarnu grantiau o'r Gronfa i orsafoedd radio cymunedol a drwyddedir gan Ofcom. Mae'r penderfyniadau am y grantiau sy'n cael eu dyfarnu yn cael eu gwneud gan Banel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom ("y Panel") a hynny mewn dwy rownd ymgeisio bob blwyddyn.

Pwrpas y canllaw hwn yw helpu trwyddedigion radio cymunedol pan fyddant yn gwneud cais am grant a dylid ei darllen ochr yn ochr â'n [Nodiadau Canllaw ar gyfer y Gronfa](#) sydd wedi'u cyhoeddi. Mae'n nodi'r math o wybodaeth mae'r Panel yn debygol o chwilio amdani wrth ystyried ceisiadau am grantiau ac yn cyfeirio at rai o'r camgymeriadau cyffredin mae'r Panel wedi'u gweld.

Canllaw yn unig yw'r ddogfen hon. Ni ddylid dibynnu arni fel cyngor cyfreithiol, ac ni ddylid ei hystyried yn ddogfen sy'n newid effaith y gofynion statudol parthed rhoi grantiau. Nid yw Ofcom yn rhoi dim sylwadau na sicrwydd, datganedig neu ymhlyg, parthed yr wybodaeth sydd yn y canllaw hwn. Nid yw rhoi sylw i'r canllaw hwn ychwaith yn sicrhau y bydd unrhyw gais am grant yn llwyddiannus. Rhaid i'r Panel ystyried nifer o ffactorau wrth ystyried cais am grant o'r Gronfa, ac nid yw'r rhain i gyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Felly ymwadir yn benodol ag unrhyw atebolrwydd. Dylai trwyddedigion radio cymunedol gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain wrth wneud ceisiadau am grantiau.

Efallai y bydd y nodiadau canllaw hyn yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Dylai trwyddedigion fynd i wefan Ofcom i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.

# Cynnwys

---

## Adran

- |                               |   |
|-------------------------------|---|
| 1. Y Gronfa Radio Cymunedol   | 1 |
| 2. Paratoi eich cais am grant | 2 |

# 1. Y Gronfa Radio Cymunedol

- 1.1 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae Ofcom yn gallu rhoi grantiau i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol. Bob blwyddyn, mae'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn neilltuo swm o arian ar gyfer Cronfa Radio Cymunedol ("y Gronfa"). Mae Ofcom yn dyfarnu grantiau o'r Gronfa i orsafoedd radio cymunedol a drwyddedir gan Ofcom. Mae'r penderfyniadau am y grantiau sy'n cael eu dyfarnu yn cael eu gwneud gan Banel Cronfa Radio Cymunedol Ofcom ("y Panel") a hynny mewn dwy rownd ymgeisio bob blwyddyn (fel arfer ym mis Ebrill a mis Hydref).
- 1.2 Nod Ofcom yw dyfarnu cymaint â phosibl o arian y Gronfa bob blwyddyn. Ond, er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni fod yn fodlon bod y ceisiadau a dderbyniwn yn bodloni dibenion y grantiau.
- 1.3 Mae'r [nodiadau canllaw](#) ar gyfer Gronfa yn rhoi gwybodaeth am ddibenion y Gronfa, pa eitemau neu gostau a fydd yn cael eu cefnogi gan y Gronfa (a pha eitemau a chostau na fydd yn eu cefnogi) a gwybodaeth arall am gymhwysedd a sut i wneud cais am grant. Yn y ddogfen hon rydym yn rhoi rhagor o arweiniad am y math o wybodaeth mae'r Panel yn debygol o fod yn chwilio amdani pan mae'n ystyried ceisiadau am grantiau. Rydym hefyd yn disgrifio rhai o'r camgymeriadau cyffredin mae'r Panel wedi'u gweld.

## Y Panel

- 1.4 Fel y nodir uchod ac yn [nodiadau canllaw](#) y Gronfa, y Panel sy'n penderfynu i bwy y bydd yn rhoi grantiau. Mae [rhagor o wybodaeth am y Panel](#) a'i aelodau ar gael ar ein gwefan. Mae tîm Trwyddedu Darlledu Ofcom yn cefnogi'r Panel drwy ddsbarthu ceisiadau, cymryd cofnodion cyfarfodydd a gweinyddu'r gronfa. Ond, nid yw'n rhan o'r gwaith o benderfynu i bwy y dylid rhoi grant. O'r herwydd, mae'n bwysig nad yw ymgeiswyr yn rhagdybio bod y Panel yn gwybod popeth amdanynt a'u gorsaf - mae'r Panel yn dibynnu ar y ffurflen gais i wneud penderfyniadau am orsaf yr ymgeisydd. Felly, mae'n bwysig fod y ffurflen gais yn cynnwys digon o fanylion fel bo gan y Panel ddealltwriaeth dda am yr orsaf a pham mae'n gwneud cais am grant (gweler adran 2 i gael rhagor o wybodaeth).

## Adborth gan y Panel

- 1.5 Ar ôl pob cyfarfod o'r Panel, bydd y Panel yn llunio datganiad yn rhestru'r rhai sydd i dderbyn grant, gan ddarparu adborth ar rai o'r problemau a gododd yn y ceisiadau a dderbyniodd a'r penderfyniadau a wnaeth. Cyhoeddir y rhain o dan y pennawd ['dyfarniadau grant blaenorol'](#) ar ein gwefan. Mae'r papur hwn yn defnyddio adborth diweddar a gafwyd gan y Panel, a'n nodiadau canllaw ar gyfer y Gronfa, i gynnig arweiniad y bydd ymgeiswyr, o bosib, am ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried sut y gallant wella'u cais am grant o'r Gronfa.

## 2. Paratoi eich cais am grant

- 2.1 Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen [nodiadau canllaw'r](#) Gronfa a'r [ffurflen gais, yn ogystal ag adborth gan y Panel](#) (dan y pennawd 'dyfarniadau grant blaenorol') ar ein gwefan. Mae'r nodiadau isod yn berthnasol i'r cwestiynau yn y ffurflen gais.

### Rhowch wybod i ni am eich gorsaf

- 2.2 Mae cwestiwn 2 ar y ffurflen gais yn gofyn am *“drosolwg o'ch gorsaf gyda manylion ynghylch ei chymuned darged, amcanion y gwasanaeth a'i hathroniaeth darlledu”*. Mae'r Panel wedi gweld yn aml nad yw'r atebion mae'n eu cael i'r cwestiwn hwn yn darparu digon o wybodaeth am ddiben ac amcanion gorsaf yr ymgeisydd.
- 2.3 Mae'r Panel eisiau deall beth rydych chi'n ei wneud - pwy ydy'r gymuned neu'r cymunedau rydych yn eu gwasanaethu? Beth ydy cymeriad eich gorsaf? Faint o wirfoddolwyr sydd gennych chi? Beth mae'r orsaf yn ceisio'i gyflawni? Beth mae wedi'i gyflawni hyd yma? Mae'n bwysig iawn eich bod yn darparu unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ategol a fydd yn eich barn chi yn rhoi darlun i'r Panel o'ch gorsaf. Dyma gyfle i ddweud wrth y Panel prosiect mor wych ydy'ch gorsaf, a sut mae'n cael ei gwerthfawrogi gan y gymuned neu gymunedau rydych yn eu gwasanaethu.

### Ar gyfer beth mae'r grant?

- 2.4 Fel y nodir yn [nodiadau canllaw](#) y Gronfa, ei bwriad yw helpu i dalu costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom. Felly, mae'r panel yn debygol o chwilio am wybodaeth yn y ffurflen gais sy'n dangos yn glir eu bod yn gofyn am y grant er mwyn ariannu swyddogaethau craidd yr orsaf (fel y nodir yn nodiadau canllaw'r Gronfa) ac i helpu i gefnogi hyfywedd parhaus yr orsaf. Mae pob cais yn cael ei ystyried fesul achos, yn dibynnu ar anghenion penodol yr orsaf; ond, mae'r Panel yn nodi bod llawer o gynigion llwyddiannus wedi gallu dangos sut y byddai'r grant yn helpu i gefnogi strategaeth ariannol hirdymor yr orsaf.
- 2.5 Dylai'r ymgeiswyr fod yn glir ac yn gryno ynghylch beth fydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Dylai'r cais ddarparu gwybodaeth glir am bwrpas y grant ac amcanion yr orsaf, a llinell amser ar gyfer y gwariant os oes raid.
- 2.6 Dylai'r ymgeiswyr ymgyfarwyddo'n llawn â nodiadau canllaw y Gronfa mewn perthynas â'r eitemau a'r costau y gellir rhoi grantiau ar eu cyfer a'r eitemau a'r costau na all y Gronfa eu cefnogi. Er enghraifft, does dim llawer o bwynt gwneud cais am grant i brynu cyfarpar swyddfa (fel gliniaduron) neu ddeunyddiau marchnata gan nad yw Ofcom yn rhoi grantiau ar gyfer y dibenion hynny.
- 2.7 Wrth ateb cwestiwn 3, dylai'r ymgeiswyr esbonio'n glir sut byddai'r rôl neu'r prosiect arfaethedig yn cyfrannu at hyfywedd parhaus yr orsaf. Dylai'r ymgeiswyr hefyd sicrhau bod hyn yn cael lefel briodol o amlygrwydd (gan gynnwys yn y Disgrifiad Swydd cysylltiedig os pwrpas y cais yw ariannu rôl). Os nad ydych yn gwneud cais am rôl datblygu busnes neu

godi arian, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym sut bydd y rôl neu'r prosiect yn helpu i greu incwm neu i gefnogi rolau eraill sy'n gwneud hynny, neu ym mha ffordd y bydd yn gwella hyfywedd yr orsaf.

## Pam mae angen y grant?

- 2.8 Mae cwestiwn 4 yn gofyn pam mae angen y grant. Yma, mae angen i'r ymgeiswyr gyflwyno'u hachos dros gael grant. Beth fydd y prosiect neu'r deiliad swydd a fydd yn cael ei ariannu yn ei gyflawni? Pam mae'r grant yn bwysig i'r gwaith o gynnal eich gorsaf? Pam mae'n bwysig i hyfywedd parhaus yr orsaf?
- 2.9 Dylai'r ymgeiswyr hefyd roi manylion unrhyw newidiadau arwyddocaol yn amgylchiadau'r orsaf, fel newidiadau i sefyllfa ariannol yr orsaf nad ydynt yn amlwg o bosib yn y cyfrifon diweddaraf a gyhoeddwyd. Gallai hyn helpu i ddangos gymaint y mae angen y grant.
- 2.10 Mae'r Panel hefyd angen gwybodaeth am gyllideb a chyllid yr orsaf er mwyn ei helpu i ddeall anghenion y trwyddedai. Efallai y bydd angen i ni ystyried lefel angen yr ymgeiswyr gwahanol os bydd y Panel yn gorfod penderfynu rhwng ceisiadau, gan fod y cyllid sydd ar gael yn gyfyngedig. Gallai esbonio'n glir unrhyw anawsterau mae'ch gorsaf yn eu hwynebu fod yn ddefnyddiol i'r Panel.

## Gair am y rôl / prosiect

- 2.11 Mae'r disgrifiad swydd arfaethedig (neu'r disgrifiad o'r prosiect) yn rhan bwysig o'r cais. Dylai gyd-fynd â'r hyn a ddywedodd yr ymgeisydd yng nghwestiwn 3. Os oes elfen ariannol neu godi arian, dylid gosod targedau clir. Dylai rolau newydd arfaethedig gyd-fynd â disgwyliadau arferol teitl y swydd - mae rhai disgrifiadau swydd rydym wedi'u derbyn yn eang iawn neu â nifer neu ystod afrealistig o amcanion, lle nad oedd yn glir i'r Panel sut bydd gan ddeiliad y swydd ddigon o amser i gyflawni'r prif dasgau'n effeithiol. Bydd y cais a'r disgrifiad swydd yn cael eu defnyddio i ddrafftio cytundeb y grant, os bydd grant yn cael ei ddyfarnu i chi. Felly, mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod y rhain yn realistig.
- 2.12 Os ariannu prosiect yw pwrpas y cais, dylai ymgeiswyr esbonio'n glir nodau ac amcanion y prosiect, darparu llinell amser yn nodi cerrig milltir a thargedau cwblhau, ac esbonio sut a phwy fydd yn cyflawni'r prosiect.
- 2.13 Os yw'r cais am brosiect neu rôl ar y cyd (h.y. rhannu swydd neu ar gyfer prosiect a fydd yn gysylltiedig â mwy nag un gorsaf), dylai'r ymgeiswyr ddweud wrthym pwy yw'r partneriaid eraill ac esbonio'n glir beth fydd eu cysylltiad a sut y byddant yn elwa, yn ogystal â sut bydd y rôl yn cael ei rhannu, neu sut bydd gwybodaeth am y prosiect yn cael ei dosbarthu.
- 2.14 Os yw'r cais am grant i gefnogi rôl newydd, bydd angen i ymgeiswyr ystyried [canllawiau Cyllid a Thollau EM](#) ar benderfynu ar statws cyflogaeth gweithwyr pan fyddant yn cynllunio'r swydd (ac yn ei chostio). Mae gan hyn oblygiadau i'r ffordd caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) eu cyfrifo ac a fydd TWE (Talu Wrth Ennill - PAYE) yn berthnasol neu beidio i'w henillion. Yn benodol, mae'r Panel wedi gweld bod nifer o geisiadau'n cynnwys

cyfrifiadau anghywir ar gyfer YG cyflogwr (gweler rhagor o wybodaeth [yma](#)), a all godi amheuaeth ynghylch faint o feddwl sydd wedi mynd i mewn i'r cais (cwestiwn 5).

- 2.15 Dylai cais i roi rhagor o arian ar gyfer rôl sydd eisoes wedi cael ei chefnogi gan y Panel gynnwys manylion ynghylch pam mae angen yr arian ychwanegol a pham nad oedd y rôl eisoes yn gynaliadwy (cwestiwn 10). Os nad oedd y rôl yn gallu cynnal ei hun, beth oedd y rhesymau dros hynny? Beth, os rhywbeth, sydd wedi newid gyda'r cais hwn sy'n cyfiawnhau parhau â'r arian?

## Pethau pwysig eraill i'w cofio

- 2.16 Gallai fod yn ddefnyddiol i drwyddedigion radio cymunedol gofrestru i gael [diweddariadau darlledu](#) ar wefan Ofcom er mwyn cael hysbysiadau e-bost am ddyddiadau agor a chau ceisiadau i'r Gronfa (yn ein diweddariadau darlledu radio misol), a hefyd edrych ar ein tudalennau gwe ar gyfer y [Gronfa Radio Cymunedol](#).
- 2.17 Dylai trwyddedigion radio cymunedol sy'n dymuno gwneud cais am grant ymatal rhag ailanfon cais a fu'n aflwyddiannus yn y gorffennol; yn hytrach, byddem yn annog trwyddedigion i ystyried pam y bu eu cais yn aflwyddiannus a'r ffordd orau o wella ceisiadau yn y dyfodol. Yn ogystal, os yw trwyddedigion yn bwriadu 'torri a gludo' o geisiadau blaenorol, dylent sicrhau eu bod yn prawf-ddarllen eu ceisiadau - neu'n well byth, yn gofyn i 'gyfaill beirniadol' wneud hyn - fel ei fod yn gwneud synnwyr ac yn cael ei ddiweddarau (er enghraifft, mae'r Panel yn aml yn gweld dyddiadau anghywir ar ffurflen). Defnyddiwch adborth llafar a/neu ddatganiadau cyhoeddedig y Panel i newid eich cynigion neu siaradwch ag ymgeiswyr llwyddiannus eraill i gael cyngor.
- 2.18 Dylai ymgeiswyr wirio'u symiau! Yn benodol, dylid gwneud yn siŵr fod y dadansoddiad o'r costau yn iawn (cwestiwn 5) a bod y swm yr un fath â'r cyfanswm a roddir yn ateb i gwestiwn 1. Unwaith eto, mae'r Panel yn aml yn gweld ceisiadau lle mae'r manylion hyn yn cael eu hesgeuluso.
- 2.19 Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn anfon y dogfennau ychwanegol sy'n cael eu rhestru yng nghwestiwn 11 gyda'u ceisiadau. Gall y rhain gynnwys: disgrifiadau swydd a manylebion y person, cynlluniau gwaith, crynodeb o incwm a gwariant, cyfrifon cwmni (neu gyfatebol) ac adroddiadau perthnasol y Gronfa (gweler cwestiwn 10). ([Peidiwch](#) ag anfon ymrwymadau allweddol, cynlluniau busnes, llythyrau cefnogaeth neu wybodaeth ategol arall).
- 2.20 Gofynnir i ymgeiswyr yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am effeithiau grant ar ddefnydd yr orsaf o'r iaith Gymraeg a'i effaith ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg (gweler y nodiadau canllaw a chwestiwn 12). (Mae'r holl wybodaeth y cyfeirir ati yn y ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn [Saesneg](#).) Mae Ofcom yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg.
- 2.21 Atgoffir ymgeiswyr i anfon eu cais erbyn y dyddiad cau! Mae ambell i gais yn cael ei wrthod bob blwyddyn oherwydd iddo fod yn hwyr. Mae derbyn ceisiadau hwyr yn annheg ar y rheini sy'n eu hanfon atom yn brydlon.

## Adborth

- 2.22 Nid yw'r Panel yn rhoi adborth unigol fel mater o drefn. Ond efallai y bydd rhywfaint o adborth llafar ar gael os ydy'r gorsafoedd yn dymuno cysylltu ag Ofcom. Byddai'r Panel yn awgrymu bod y gorsafoedd yn gofyn am adborth os ydynt yn bwriadu ailgyflwyno cynigion ar gyfer yr un swydd neu brosiect yn y dyfodol.